# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **09:15 – 11:25** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_23_11_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Suzy Davies**<br>**Julie Morgan**<br>**Lynne Neagle**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Dr Chris Llewelyn, CLLC**<br>**Karl Napieralla, Cyfarwyddwr Addysg Castell-nedd Port Talbot, ADEW**<br>**Ann Keane, Chief Inspector of Education and Training in Wales**<br>**Meilyr Rowlands, Strategic Director, Estyn** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Morris (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Secretary)**<br>**Anne Thomas (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Sesiwn Dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd Karl Napieralla i ddarparu nodyn ynghylch sut mae Awdurdod Addysg Lleol Castell-nedd Port Talbot wedi trefnu i gydweithio ag eraill
- Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu gwybodaeth am sut mae'r holl awdurdodau addysg lleol yng Nghymru wedi mynd i'r afael â'r mater o gydweithio, ac yn enwedig sut mae ysgolion a cholegau yn cydweithio'n effeithiol.
- Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn i'r holl awdurdodau addysg lleol ddarparu rhagor o fanylion am faterion teithio a thrafnidiaeth er mwyn cael darlun cliriach ar lefel genedlaethol.

## 3. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Sesiwn Dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

4.1 Cytunodd yr Aelodau ar y cynnig i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer gweddill y cyfarfod.

## 5. Ymchwiliad i iechyd y geg - ystyried y prif faterion

5.1 Bu'r Aelodau yn trafod y prif faterion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad i iechyd y geg gan nodi y bydd argymhellion drafft ar gael iddynt i'w hystyried yn y cyfarfod ar 7 Rhagfyr.

## 6. Trafod y flaenraglen waith

6.1 Bu'r Aelodau yn trafod yr awgrymiadau ar gyfer ymchwiliadau i'r dyfodol gan nodi y bydd y Clerc yn paratoi amserlen ddrafft ar gyfer tymor y gwanwyn i'r Pwyllgor ei hystyried.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.